# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

**14 IONAWR 2019**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr;
A Thomas, Rheolwr Budd-daliadau Treth y Cyngor
S. Jones, Arweinydd Cefnogi Tenantiaeth;
R. Heaney, Swyddog Tai;
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin: 10:00am - 11:00am**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 8FED TACHWEDD, 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir.**

## 3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

## 4. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. Dywedwyd nad oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi dyledion unigol, ac y byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd wedi'i lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a oedd yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500 gan gyn-denantiaid. Rhoddodd yr adroddiad y sefyllfa bresennol o ran dyledion cyn-denantiaid Stoc y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad yn achosion hirdymor a bod ymdrechion wedi eu gwneud i olrhain y cyn-denant ac adennill y swm dyledus, ond bu'r ddau yn aflwyddiannus.

Dywedodd y Swyddog Tai fod rhai mân newidiadau i'r adroddiad mewn perthynas ag Achos rhif 6 - dylai'r cyfeirnod ddarllen fel 223406-019-1237. Hefyd, roedd mân newidiadau i'r camau adennill yn Achos rhif 8.

Yn dilyn cais gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i gael gwybodaeth fanylach am gefndir yr achosion, awgrymodd yr Arweinydd Cymorth Tenantiaeth fod Achos rhif 12 yn cael eu gohirio er mwyn gallu rhoi gwybodaeth fanylach i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol cyn gwneud penderfyniad.

**PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill, ac eithrio Achos rhif 12, a fydd yn cael eu gohirio er mwyn cael rhagor o wybodaeth yn eu cylch.**

## 5. TRETH Y CYNGOR - GOSTYNGIADAU YN OL DISGRESIWN

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys data personol am gyn-denantiaid y cyngor, ynghyd â manylion am eu hôl-ddyledion rhent. Dywedwyd nad oedd cyfiawnhad dros gyhoeddi dyledion unigol, ac y byddai hynny'n anfanteisiol i hawliau a rhyddid yr unigolion perthnasol. Felly roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y ceisiadau oedd wedi dod i law am ostyngiadau yn ôl disgresiwn i'r Dreth Gyngor.

Nodwyd bod rheoliadau wedi'u cyflwyno, gan ddod i rym ym mis Ebrill 2004, a roddai bwerau disgresiwn i Awdurdodau Lleol roi disgownt neu ostyngiad a benderfynwyd yn lleol o ran y Dreth Gyngor, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol.

**PENDERFYNWYD rhoi gostyngiad o 50% i'r ôl-ddyledion (nodwyd mai'r swm llawn oedd £507.93) mewn perthynas â chais 60066707-5.**

## 6. TRETHI ANNOMESTIG - CYMORTH CALEDI

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hanes ariannol diweddar trethdalwyr unigol a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais am Ryddhad Caledi o dan darpariaethau Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais cyfeirnod 80024174 am ryddhad caledi.**

## 7. YSGOL LLANSAWEL

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd prawf budd y cyhoedd yn y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y byddai ei datgelu'n debygol o danseilio sefyllfa'r Cyngor mewn unrhyw drafodaethau dilynol. Felly roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion ar gyfer defnyddio'r  ased diangen a nodwyd uchod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD prydlesu'r eiddo i Ymddiriedaeth Crochan Cothi am gyfnod o 20 mlynedd am rent hedyn pupur, yn amodol ar gynnwys amodau prydlesu perthnasol er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ________________ |
| **AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** | **DYDDIAD** |